Drama Nadolig Sydyn

MAE'N DECHRAU DRAW YM METHLEHEM

Y SGRIPT

Y Fersiwn Rhithwir

Ysgrifennwyd gan Bob Hartman

Cymdeithas y Beibl

Y pethau sylfaenol

Y cyfan sydd ei angen arnoch chi ar gyfer eich drama'r geni yw'r sgript hon, adroddwr brwd a chynulleidfa barod. (Bydd angen i chi hefyd ddatrys sut rydych am ffrydio hwn ar-lein fel ei fod yn gweithio'n rhithwir. Rydym yn argymell rhoi cynnig ar Facebook Live neu Zoom, ond mae yna lawer o opsiynau ar gael.)

Yn syml iawn, mae eich adroddwr yn dilyn y sgript, gan adrodd stori'r geni ac annog cyfranogiad y gynulleidfa. Efallai y byddwch hefyd am ei addasu - rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau ar gyfer carolau ac adnoddau cysylltiedig.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen y cyfan ymlaen llaw a'i wneud yn addas ar eich cyfer chi. Mwynhewch!

Gwybodaeth am y cymeriadau

Gall fod yn dda annog eich cynulleidfa i wisgo fel cymeriadau o'r geni yn eu cartrefi. Mae'n ychwanegu at yr hwyl! Ond peidiwch â phoeni, nid oes angen llawer o bobl i ddarllen y sgript - dim ond un adroddwr.

Efallai bydd eich adroddwr am wisgo gwisg o ddrama'r Geni neu wisg Nadoligaidd.

Adnoddau ategol

Rydym wedi creu set o ddelweddau y gallwch eu defnyddio ochr yn ochr â'ch drama'r geni. Lawrlwythwch y cyflwyniad PowerPoint o'n gwefan, sydd ar gael ar gyfer sgrin lydan a sgriniau sgwâr.

Efallai y byddwch am gynnwys y rhain yn eich drama geni rithwir, yn dibynnu ar ba mor dechnegol-hyderus rydych chi'n teimlo.

Mae'r ddrama geni hon yn seiliedig ar ein stori blant, *Mae'n dechrau draw ym Methlehem – Rhigwm Stori'r Geni ar gyfer Nadolig eleni*. Beth am roi copïau yn anrheg ar ddiwedd y gwasanaeth? Gallwch eu harchebu ar-lein am brisiau gostyngedig arbennig. Rydym hefyd wedi creu animeiddiad fideo o *Mae'n dechrau draw ym Methlehem – Rhigwm Stori'r Geni ar gyfer Nadolig eleni* y gallwch ei lawrlwytho neu ei ffrydio a'i ddangos yn eich gwasanaeth.

Edrychwch ar y rhain a'n holl adnoddau Nadolig eraill i chi a'ch eglwys gan fynd i **cymdeithasybeibl.cymru/nadolig**

Rhowch y stori

Mae adnoddau am ddim megis y ddrama'r geni hon, ynghyd â'n cenhadaeth i helpu i ddod â'r Beibl i bobl ledled y byd, yn cael eu hariannu gan ein cefnogwyr hael. I ddarganfod mwy am gynnal casgliad yn eich eglwys tuag at Gymdeithas y Beibl, ewch i **biblesociety.org.uk/get-involved**

Y SGRIPT

Adroddwr
(Sleid 1)

Croeso i Mae'n dechrau draw ym Methlehem – Rhigwm Stori'r Geni ar gyfer Nadolig eleni!

Fy enw i yw _____ a fi fydd yn ein harwain trwy hanes y geni heddiw. Bydd llawer o gyfleoedd i ymuno yn yr hwyl gartref, felly gwrandewch yn ofalus!

Adroddwr
(Sleid 2)

Mae ein stori yn dechrau gyda merch o'r enw Mair.

Fe wna i ddarllen y penillion, ond hoffem i chi ein helpu gyda'r corws.

Dyma'r symudiadau sy'n cyd-fynd â'r geiriau. Ymunwch â ni gartref os gallwch!

'Mae Duw'n gwasgaru'r balch'

(Rhowch eich dwy law gyda'i gilydd, yna symudwch y llaw chwith i'r chwith a'ch llaw dde i'r dde ar yr un pryd, mewn symudiad rhannu).

'Mae'n codi'r isel lan'
(Daliwch eich dwylo o'ch blaen, cledrau i fyny, a gwnewch symudiad codi).

'Mae'n gwneud pethau mawr'
(Gwnewch symudiad cyhyrau)

'I bawb sy'n teimlo'n wan'
(Gollyngwch eich ysgwyddau, breichiau wrth yr ochr)

'Ei fendith sydd i bawb'
(Daliwch law allan mewn symudiad bendith)

'Sydd eisiau gwneud ei ran'
(Llaw uwchben y llygaid, symudiad chwilio)

'Rho fawl a chana glod'
(Dwylo wrth ochr eich ceg)

'Duw yw'r gorau sydd yn bod!'
(Codwch eich breichiau yn yr awyr wrth ddathlu)

'Nawr gadewch inni ei wneud unwaith eto, er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd wedi ei gael!' (Ailadroddwch y camau uchod)

Adroddwr
(Sleid 3)

Roedd merch o'r enw Mair
Yn brysur wrth ei gwaith,
Fe alwodd angel draw,
Ond nid drwy'r drws y daeth.
Fe ddaeth efe o 'nunlle
A syrthiodd Mair i'r llawr.
'Sut wyt ti, Mair?' dywedodd ef
'MAE DUW GYDA TI YN AWR.'

'Duw gyda mi?' meddyliodd
'Ond beth yw ystyr hyn?
A gefais innau freuddwyd?'
Edrychodd Mair yn syn.
Ond gwenu wnaeth yr angel.
'Paid ofni na chael braw,
Mae Duw yn hapus iawn 'da ti
A BENDITH ITI DDAW.

(Sleid 4)

Corws (**y gynulleidfa** yn ymuno gyda symudiadau)
Mae Duw'n gwasgaru'r balch,
Mae'n codi'r isel lan,
Mae'n gwneud pethau mawr
I bawb sy'n teimlo'n wan.
Ei fendith sydd i bawb
Sydd eisiau gwneud ei ran.
Rho fawl a chana glod,
DUW YW'R GORAU SYDD YN BOD!'

Adroddwr

Ac yna medd yr angel
'Cei fabi cyn bo hir,
Ei enw ef fydd Iesu,
Mab Duw fydd hwn, yn wir.
Etifedd Brenin Dafydd,
Yn frenin nef a llawr
Caiff eistedd ar ei orsedd
AM BYTH - RHOWN GLOD YN AWR.'

(Sleid 5)

'Ond sut bydd hyn yn digwydd,
Nid yw'r sefyllfa'n glir,
Dwi wedi dyweddïo
Ond priod, nid wyf wir!'
'Ymddiried yn yr Arglwydd,
Mae cynllun Duw ar waith
Ei Ysbryd ddaw i'th gynnal
A GORFFWYS ARNAT WNAIFF.'

Corws (**y gynulleidfa** yn ymuno hefo symudiadau)
Mae Duw'n gwasgaru'r balch,
Mae'n codi'r isel lan,
Mae'n gwneud pethau mawr
I bawb sy'n teimlo'n wan.
Ei fendith sydd i bawb
Sydd eisiau gwneud ei ran.
Rho fawl a chana glod,
DUW YW'R GORAU SYDD YN BOD!'

(Dewisol) 'Felly gadewch inni wneud yr hyn a ddywedodd Mair. Gadewch i ni ganu clod i Dduw. Duw yw'r gorau sydd yn bod!'

(Dewisol) Pawb i ganu: *O deuwch ffyddloniaid*

Mair
(arweinydd) yn darllen gweddi:

Arglwydd, dysg ni fod fel Mair
A atebodd dy ofynion.
Helpa ni i roi a gwneud
Beth bynnag yw'r gorchwylion.

Adroddwr
(Sleid 6)

Joseff sy'n dod nesaf yn ein stori. Mae wedi dyweddïo â Mair ond mae newydd ddarganfod ei bod hi'n disgwyl babi - babi nad yw'n fab iddo! Mae corws ar gyfer ei gerdd ef hefyd. Ac unwaith eto, hoffem i bob un ohonoch ymuno! Dyma'ch symudiadau:

JOSEFF paid â phoeni,
(Brwsiwch eich llaw ar hyd eich talcen, fel petai'n rhyddhad)

JOSEFF paid â chrïo.
(Rhedwch eich bys i lawr eich boch o'ch llygad)

Rho dy ben i lawr a gad i'r nos dy suo.
(Gosodwch eich pen ar eich dwylo wedi eu plethu)

Do bu Mair yn ffyddlon, a'i chariad hi'n ddiflino,
(Rhowch eich dwrn neu eich llaw ar eich calon)

Mab yr Arglwydd Dduw yw'r babi mae hi'n cario.
(Gwnewch symudiad siglo babi)

Adroddwr

Methodd Joseff gysgu, troi a throi a throsi,
Methu gorffen poeni, meddwl a phendroni.
Mair yn disgwyl baban, gwyddai yntau hynny,
Y cwestiwn ydoedd sut, nid fe oedd tad y babi.

Corws (**y gynulleidfa** i ymuno gyda symudiadau)
JOSEFF paid â phoeni, JOSEFF paid â chrïo.
Rho dy ben i lawr a gad i'r nos dy suo.
Do bu Mair yn ffyddlon, a'i chariad hi'n ddiflino,
Mab yr Arglwydd Dduw yw'r babi mae hi'n cario.

Adroddwr
(Sleid 7)

Dwedodd hithau wrtho mai angel a ddaeth ati
A thrwy yr Ysbryd Glân, Mab Duw a gaiff ei eni.
Ond er i hithau daeru, nid ydoedd yn ei chredu.
A meddwl wnaeth efe am adael ei ddyweddi.

Syrthio wnaeth i gysgu, ac angel ddaeth mewn breuddwyd.
'Paid ofni,' meddai yntau, 'mae hyn yn rhywbeth hyfryd.
Mi wn dy fod mewn penbleth, s'dim angen i ti boeni,
Mae Mair yn dweud gwirionedd, o Joseff gwrando arni.'

Pwy yw y babi yma? Mab Duw a Mab y Dyn,
Ei enw Ef fydd IESU, ac Ef yn wir yw'r Un
A addawyd i ni, i'n hachub ni pob un,
EMANIWEL YDYW, DUW GYDA NI EI HUN!

(Sleid 8)

'Efe yw'r ateb i ni, hyn ddwedodd y proffwydi,
Arhoswch gyda'ch gilydd a mynnwch chi briodi.'
A phan wnaeth Joseff ddeffro, fe wrandodd a gweithredu
Gan uno mewn priodas â Mair, ei ddyweddi.

Corws (**y gynulleidfa** i ymuno gyda symudiadau)
JOSEFF paid â phoeni, JOSEFF paid â chrïo.
Rho dy ben i lawr a gad i'r nos dy suo.
Do bu Mair yn ffyddlon, a'i chariad hi'n ddiflino,
Mab yr Arglwydd Dduw yw'r babi mae hi'n cario.

Joseff
(arweinydd) yn darllen gweddi:

'Arglwydd, dysg ni fod fel Joseff,
Un cyfiawn a charedig.
Helpa ni i wrando gan
Ymddiried yn frwdfrydig.'

Adroddwr

Mae hi bron yn amser i griw ohonoch chi ddod i'r blaen. Ydych chi'n barod? Rydw i'n mynd i ddarllen cerdd fach arall am daith Mair a Joseff. (Dewisol) Yna rydyn ni'n mynd i ganu. A phan fydd y gerddoriaeth yn cychwyn, fe fydd hi'n amser i bob **Mair** a **Joseff** a'r holl **anifeiliaid** ddilyn eich arweinwyr i'r blaen!

Aeth Mair a Joseff, ei gŵr, i lawr
I'w cyfri gan Cesar ym Methl'em. Nawr
Doedd dim gwely gwag mewn unrhyw lety
Ond aethant i stabl, ac yno gwnaed gwely.
Ynghanol y gwair, bu geni mab Duw,
Ei enw yw Iesu, un arbennig yw.

(Dewisol) Pawb i ganu: *O dawel ddinas Bethlehem*

Cyfarwyddiadau:
Yn ystod y gân, mae arweinydd **Joseff** *yn arwain yr holl gymeriadau Joseff i'r blaen. Yn ddelfrydol, maen nhw'n sefyll yn y cefn. Mae arweinydd* **Mair** *yn arwain yr holl gymeriadau Mair i'r blaen. Maen nhw'n eistedd neu'n penlinio (efallai y bydd angen cadair neu ddwy arnoch chi ar gyfer y cymeriadau hŷn!) o flaen pob Joseff. Os na wnaethant ddod â'u babi Iesu eu hunain, efallai yr hoffech chi gael rhai ar gael i'w rhannu yn eu plith (nid yw hyn yn rheidrwydd, ond gall fod o help, o gofio mai Iesu yw*

canolbwynt yr holl beth!). Yna mae arweinydd yr **anifeiliaid** *yn arwain yr anifeiliaid i'r tu blaen. Maen nhw'n eistedd wrth yr ymylon, neu os ydyn nhw'n fach, o flaen pob Mair. Mae hyn yn edrych yn eithaf trefnus ar bapur, ond byddwch yn barod am anhrefn!*

(Dewisol) Canu: Dawel Nos neu I orwedd mewn preseb

Cyfarwyddiadau:
Mae'r **arweinwyr** *yn arwain pawb yn ôl i'w seddau. Yna mae arweinwyr* **Mair** *a* **Joseff** *yn dychwelyd i'r blaen. Mae* **Mair** *yn eistedd, gan ddal y baban, gyda* **Joseff** *y tu ôl iddi. (Gallwch gynnwys* **arweinydd** *yr anifeiliaid pe dymunwch!)*

Adroddwr
(Sleid 9)

A nawr mae'n amser i gyfarfod y bugeiliaid a'r angylion!

Dyma'r corws:
Molwch yr Arglwydd Dduw a'i glodfori,
Dathlwch hanes rhyfeddol y stori
O gariad a hedd, gyda llawen drem,
Mae'n dechrau draw ym METHLEHEM.

Hoffem i chi gyd ymuno gyda'r geiriau hyn gartref.

Bugeiliaid yn gorwedd tu allan ar fryn
Y nos oedd yn dawel a llonydd fel llyn.
Y criw oedd yn gwarchod a gwylio y defaid
A blinder cynyddol yn cyffwrdd eu llygaid.

Yr angel ymwelodd, yn LLACHAR a golau
Goleuwyd y nos a'u hwynebau hwythau.
Crynodd y bugeiliaid yn eu hesgidiau.
Meddai yr angel, 'Rhowch heibio eich ofnau'.

Corws – **y gynulleidfa** i adrodd ynghyd
Molwch yr Arglwydd Dduw a'i glodfori,
Dathlwch hanes rhyfeddol y stori
O gariad a hedd, gyda llawen drem,
Mae'n dechrau draw ym METHLEHEM.

(Sleid 10)

'NEWYDDION DA sydd gennyf i chi.
Fe ganwch, fe neidiwch yn llawn hwyl a sbri.
NEWYDDION DA sydd i bawb yn y byd.
NEWYDDION LLAWEN a ddaeth i ni gyd.

'Newyddion da, bu Duw'n driw i'w air,
Anfonodd waredwr, sef Crist, faban Mair.
Yr un a addawodd ei anfon o'r nef
A aned heddiw ym METHLEHEM dref.'

Adroddwr

'A nawr dyma'r arwydd a roddir i chi.
Fe welwch i gyd fod y stori'n wir.
Fe welwch y BABI mewn gwely gwair
Yn cysgu, efe ydyw baban Mair.'

(Sleid 11)

Daeth mwy o angylion, a mwy fyth eto,
Sawl un, nifer, gormod i'w rhifo,
Roedd yr awyr yn llawn o fiwsig a moli
Gan gôr nefolaidd yr wybren YN CANU.

Ac felly fe aeth yr angylion i ffwrdd,
A'u gadael nhw'n amau a wnaethant eu cwrdd,
Ond dyna be welsant, nid ydoedd yn freuddwyd,
Y gân, y gorfoledd, y geiriau lefarwyd.

'Nawr dewch i ni fynd draw i Fethlehem dref,'
Dywedai'r bugeiliaid mewn llawen lef.
Ac yno fe welsant y baban yn cysgu
Mewn cafn anifail a gwellt fel ei wely.

(Sleid 12)

Ac yna fe dd'wedon am gân yr angylion,
Gwenu wnaeth Mair a'i chadw'n ei chalon.
Dangosai ei llygaid nad oedd yn eu hamau,
Fe gredodd y geiriau a glywodd o'u cegau.

Fe aeth y bugeiliaid yn ôl draw i'r caeau,
Yn llawen, yn hapus a chân yn eu calonnau,
Gan foli yr Arglwydd, bob un â llais uchel,
Yn tystio i'r wyrth, yn union fel angel.

Corws – **y gynulleidfa** i adrodd ynghyd
Molwch yr Arglwydd Dduw a'i glodfori,
Dathlwch hanes rhyfeddol y stori
O gariad a hedd, gyda llawen drem,
Mae'n dechrau draw ym METHLEHEM.

(Dewisol) Canu: "Pan oedd bugeiliaid" neu "Clywch lu'r nef"

Yr Angel
(arweinydd) yn darllen gweddi:

Diolch, Iôr, am gân yr angylion
Yn sôn am eni Achubwr y Byd
Dangos y ffordd i ni fyw heddiw
Fywyd o gariad a heddwch ynghyd.

Adroddwr
(Sleid 13)

Reit, angylion, yn ôl i'r nefoedd! A bugeiliaid, mae angen i chi fynd yn ôl at eich defaid. (Mae arweinwyr yr **angylion** a'r **bugeiliaid** yn arwain eu grwpiau yn ôl i'w seddi).

Oherwydd nawr, mae'n bryd i amser basio. Mae'r sêr-arsyllwyr yn dilyn eu seren. Ond mae'n cymryd amser iddyn nhw gyrraedd Bethlehem. Felly nid ydyn nhw'n cyrraedd yr un noson â'r bugeiliaid. Na, mae'n debyg mai tua blwyddyn neu fwy yn ddiweddarach y bu iddyn nhw guro ar ddrws y Brenin Herod.

Allwch chi ymuno gyda'r corws? Dyma'r symudiadau:

'Un CRWMP'
(Codwch un bys)

'Dau GRWMP'
(Codwch ddau fys)

'Crympiau crympiog'
(Bownsiwch i fyny ac i lawr yn eich sedd)

'Ymlaen yr aent bob yn LWMP a BWMP lympiog'
(Bownsiwch i fyny ac i lawr eto)

'Un CRWMP'
(Codwch un bys)

'Dau GRWMP'
(Codwch ddau fys)

'Crympiau crympiog'
(Bownsiwch i fyny ac i lawr yn eich sedd)

'Gan ddilyn y seren ar noson serennog'
(Edrychwch i fyny i'r awyr a phwyntio – neu pwyntiwch at seren os oes un yn agos)

Adroddwr

Gwyliodd arsyllwyr y sêr yn y nen
A gwelsant un seren ddisglair uwchben
Deallant holl gyfrinachau'r ffurfafen,
Ac ymhell i'r gorllewin, fe welsant y seren.

'Fe aned brenin! Dyna yw'r ystyr.
Draw yn Jwdea, mae hynny yn eglur.'
Aethant ar gefn eu creaduriaid camelog
A dechrau eu ffordd ar hyd llwybrau troellog.

Corws (**y gynulleidfa** i ymuno gyda symudiadau)
Un CRWMP, dau GRWMP, crympiau crympiog,
Ymlaen yr aent bob yn LWMP a BWMP lympiog.
Un CRWMP, dau GRWMP, crympiau crympiog,
Gan ddilyn y seren ar noson serennog.

(Sleid 14)

Ac yna, o'r diwedd daeth eu taith i ben.
A hynny yn ninas Jerwsalem.
Gan fynd draw at HEROD ac yna ei holi
Os gwyddai yntau yn lle roedd y babi.

'O frenin,' gofynnodd y tri yn ystyriol
'Heno yn yr ardal, a'r sêr mor rhyfeddol
Mae BRENIN NEWYDD sbon yn bodoli.
Wyddoch chi ble, i ni gael ei addoli?'

Ac yna dechreuodd Herod boeni
(Doedd ganddo ddim bwriad i gael ei ddisodli)
Gan holi ei offeiriaid mewn ymgais i'w helpu –
A oeddent yn gwybod lleoliad y babi?

Adroddwr
(Sleid 15)

Atebai'r offeiriaid heb iddynt oedi,
'BETHL'EM yw'r lle, yn ôl y proffwydi.'
Yn gyfrwys, bu Herod yn meddwl am dipyn –
'Mi fyddai yn dda i mi gyfarfod â'r brenin!'

'Gyfeillion y sêr,' meddai'r brenin gan wenu.
'Ym Methlehem dref y ganwyd y babi.
Dewch nôl i ddweud ble'n union mae'r Un.
Yr union gyfeiriad i mi gael plygu fy nglin.'

Roedd Herod, wrth gwrs, yn gelwyddgi garw.
Meddyliai am ffyrdd y gallai'r crwt farw,
Dyna ei fwriad pan welai e'r babi,
Ond gadawodd y tri heb ddeall am hynny

(Sleid 16)

Arweiniodd y seren hwy draw at y fan.
Tŷ syml, nid palas â thyrrau ymhob man.
Pan welodd y tri gŵr y bachgen bach,
Fe dynnon nhw lu o roddion o'u sach.

Anrhegion a roddwyd yn addas i frenin
Llond lle o bethau AUR disglair melyn.
MYRR hefyd, sy'n bersawr hyfryd.
A THUS sy'n llawn arogl sbeislyd.

Y noson honno, fe gawson nhw freuddwyd,
Un drwg ydoedd Herod, a dywedodd ef gelwydd.
Ni ddwedon nhw wrtho ymhle'r oedd y bachgen
Ac adref a aethant 'rhyd ffordd arall amgen.

Corws (**y gynulleidfa** i ymuno gyda symudiadau)
Un CRWMP, dau GRWMP, crympiau crympiog,
Ymlaen yr aent bob yn LWMP a BWMP lympiog.
Un CRWMP, dau GRWMP, crympiau crympiog,
Gan ddilyn y seren ar noson serennog.

Y Seren
(arweinydd) yn darllen gweddi:

Arglwydd, fel y sêr-arsyllwyr,
Helpa ni dy ddilyn
Gan geisio dy arweiniad
Wrth ddilyn pob gorchymyn.

Adroddwr
(Sleid 17)

Rydyn ni wedi cael amser hyfryd yn dathlu stori'r Nadolig. Rydyn ni'n ei wneud bob blwyddyn. Rydyn ni'n ei wneud am reswm. A dyna pam mae yna un gerdd i gloi.

'Felly', meddech chi, 'beth oedd pwynt yr angylion,
Y bugeiliaid, camelod, y seren a'r doethion?
Ai stori yn unig yw hon i gael clywed
ar ddydd NADOLIG, rhyw hwyl ddiniwed?'

Ond nid dyna yw hi, nid stori fach gynnes.
Mae'n neges ganolog i bob rhan o hanes!
Y babi o Fethl'em a dyfodd yn ddyn
Gan herio pob pŵer a phob brenin ei hun

(Sleid 18)

Fe'n dysgodd fod CARU yn well na chasáu
Fod gweini yn dda a maddau bai.
Dangosodd werth bywyd i bob un byw:
Y mawr a'r bach, yr holl ddynol ryw.

Ac yna, ar groes, bu farw i'n rhyddhau,
Marw i'n hachub, er mwyn ein glanhau.
A cherddodd o'i fedd ddyddiau'n ddiweddarach
I droi'r nos yn ddydd na fu ei harddach.

A dyna yw newyddion da'r angylion:
Daeth Iesu i'n caru a hynny o'i galon.
Bywyd newydd yn awr. Bywyd newydd am byth.
DYNA RODD Y NADOLIG, DYNA YW'R WYRTH!

(Dewisol) Canu: "Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod" neu "Faban Dwyfol, faban siriol"

(Ar y pwynt hwn, fe allech chi weddïo, neu gynnig gwahoddiad, neu awgrymu ffyrdd y gallai'r dorf ddarganfod mwy am Iesu.)

Diolch o galon am ymuno gyda ni heddiw, ac am ein helpu i adrodd stori newyddion da Duw.

Felly gadewch inni roi 'Bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd!' i bob **Mair**.
A gadewch inni roi, 'Does dim angen poeni!' i bob **Joseff**.
A gadewch i ni roi, 'MŴ! MÊ! HÎHÔ!' i'r **anifeiliaid**.
A gadewch i ni roi, 'Helo! Peidiwch â bod ofn!' i'r **angylion**.
A gadewch inni roi, 'Peidiwch â bod ofn? Ydych chi wedi mynd o'ch co'?' i'r **bugeiliaid**.
Ac, yn olaf, gadewch inni roi, 'Sêr y nos yn gwenu!' i bob **Seren** a **Sêr-arsyllwr**."

(Dewisol) Gadewch i ni gloi trwy ganu gyda'r angylion, "Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn!"

Yng Nghymdeithas y Beibl credwn gall y Beibl newid bywydau pobl er daioni.

Gan weithio ar draws Affrica, Tsieina a'r Dwyrain Canol - mewn lleoedd lle mae Cristnogaeth yn tyfu gyflymaf - rydyn ni'n cyfieithu, yn dosbarthu ac yn helpu pobl i uniaethu â'r Beibl a gwneud synnwyr ohono. Ac rydym yn eiriol dros ei le yn y gymdeithas fel nad yw ei ddoethineb, ei ysbrydoliaeth a'i berthnasedd yn cael ei golli.

Yma gartref, lle mae'r Beibl ar gael yn rhwydd ond yn anaml yn cael ei ddarllen, rydym yn cyflwyno cenhedlaeth newydd i'r straeon sy'n newid bywydau ac yn helpu pobl i ymgysylltu ag ef yn well fel y bydd y Beibl yn parhau i ffurfio ein cymunedau.

Fe'n sefydlwyd dros 200 mlynedd yn ôl gan grŵp angerddol o bobl a gredai y dylid rhannu gair Duw ar draws y byd, ac rydym wedi ein cynnal gan ymrwymiad miloedd o gefnogwyr - pobl fel chi - sydd wedi ymuno â'n cenhadaeth i ddod â'r Beibl yn fyw.

Mae popeth a wnawn yn cael ei yrru gan un argyhoeddiad: pan fydd pobl yn ymgysylltu â'r Beibl gall bywydau newid, er daioni. Felly os yw'r Beibl wedi gwneud gwahaniaeth i'ch bywyd chi, ymunwch â ni trwy weddi a chefnogaeth i ddod â'r Beibl yn fyw ledled y byd.

Fe gewch rhagor o adnoddau i'ch helpu chi i rannu'r stori fawr y Nadolig hwn yn biblesociety.org.uk/christmas

©British and Foreign Bible Society 2020 | biblesociety.org.uk | Elusen gofrestredig 232759

Cymdeithas y Beibl